


Adroddiad Arolygu ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

PCP Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 20 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-499-7

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	Ansawdd Profiad y Claf	10
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C – Cynllun gwella	32



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o PCP Caerdydd ar 20 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth gan gleifion a chanfyddiadau'r arolygiad yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu gofal cadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn nodi eu bod wedi cael profiad da neu dda iawn. Dywedodd y cleifion fod y staff bob amser yn garedig, yn hawdd mynd atynt, yn barchus ac ar gael i roi cymorth. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd eu bod wedi cael eu trin ag urddas a bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth, wedi cael gwybodaeth glir am gostau ac opsiynau triniaeth, wedi cwblhau gweithdrefnau cydsynio, a bod eu hanes meddygol wedi cael ei adolygu cyn cael triniaeth.

Roedd y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i hybu iechyd a llesiant. Roedd gwybodaeth ac adnoddau ar gael i'r cleifion i'w helpu i fyw bywydau iachach, ynghyd ag opsiynau bwyta'n iach, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau caethiwed i gyffuriau ac alcohol allanol, ac amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Roedd cyfleusterau fel y gornel dawelu, ardaloedd gweithgareddau cymunedol a phrosiect garddio a oedd yn cael ei ddatblygu yn helpu i hybu llesiant emosiynol ac adferiad. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth ac annibyniaeth, gyda chyfleusterau hygyrch, cymorth ar gyfer anghenion unigol a chyfleoedd ar gyfer cyswllt teuluol lle bo'n briodol.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mynegodd rhai cleifion bryderon ynghylch elfennau o'r gofal yn ystod y broses ddadwenwyno. Nodwyd anawsterau'n gysylltiedig ag arsylwadau dros nos, gan gynnwys cwsg aflonydd, drysau ystafelloedd gwely heb eu cloi a theimladau o fod yn agored i niwed. Mynegodd nifer o'r cleifion bryderon ynghylch adegau pan mai dim ond un aelod o staff oedd ar ddyletswydd dros nos, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch a diogeledd. Roedd yr adborth hefyd yn tynnu sylw at anfodlonrwydd ynghylch y ffaith nad oedd llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r ystafelloedd gwely yn ystod y broses ddadwenwyno, cyfyngiadau ar ddefnyddio ffonau symudol a'r angen am fwy o hyblygrwydd o ran mynychu grwpiau therapiwtig pan oedd unigolion yn sâl yn gorfforol.

Roedd y cleifion yn gwerthfawrogi cyfleoedd i roi adborth drwy gyfarfodydd cymunedol, blychau awgrymiadau a dulliau ymgysylltu eraill. Gwnaethant ddweud eu bod yn hyderus y byddai'r staff yn gwrandao ar bryderon ac yn ymateb iddynt. At ei gilydd, gwelodd yr arolygiad wasanaeth gofalgarn a chefnogol sy'n hyrwyddo urddas, llesiant ac adferiad. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn cryfhau ymdeimlad y

cleifion o ddiogelwch, preifatrwydd a chymorth wedi'i deilwra at yr unigolyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau dadwenwyno a dros nos.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r trefniadau staffio dros nos er mwyn sicrhau bod mwy nag un aelod o'r staff ar gael dros nos, neu fod asesiadau risg cadarn ar waith i fynd i'r afael â diogelwch cleifion a theimladau o fod yn agored i niwed
- Cynyddu hyblygrwydd a chymorth sy'n canolbwyntio ar y claf yn ystod y broses ddadwenwyno, gan gynnwys gallu defnyddio'r ystafelloedd gwely, cyfleoedd i orffwys, gallu defnyddio ffonau symudol a gweithgareddau ymarfer corff neu lesiant ychwanegol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch, ac roedd y cleifion yn sôn yn gyson am ryngweithio cadarnhaol a chefnogol
- Ffocws cryf ar hybu iechyd a llesiant, gan gynnwys cymorth ar gyfer ffordd iach o fyw, gweithgareddau hamdden, adnoddau iechyd meddwl ac amgylchedd therapiwtig
- Dulliau effeithiol i ymgysylltu â chleifion a cheisio'u hadborth, gyda chyfarfodydd cymunedol, systemau ar gyfer awgrymiadau a thystiolaeth weladwy bod adborth gan gleifion yn cael ei weithredu arno drwy'r dull "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol drwy systemau a oedd wedi'u sefydlu'n gadarn, arweinyddiaeth ymatebol ac ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus. Gwelwyd amgylchedd glân, diogel a chefnogol, gyda llety hygyrch ar y llawr gwaelod, ardal awyr agored a oedd ar gael yn ddirwystr, mesurau diogelwch priodol, a chamau gweithredu prydlon pan oedd pryderon amgylcheddol yn codi. Roedd arferion atal a rheoli heintiau hefyd wedi'u hymgorffori, gyda chyfleusterau hylendid dwylo addas, cyfarpar diogelu personol hygyrch, a'r staff yn cefnogi'r cleifion i ddilyn arferion hylendid da.

Roedd trefniadau llywodraethu a rheoli risg cadarn ar waith a oedd yn cefnogi diogelwch y cleifion. Roedd risgiau amgylcheddol a chlinigol wedi cael eu hadolygu ac

roedd digwyddiadau wedi cael eu cofnodi a'u craffu arnynt drwy system Kipu, sef platfform rheoli gofal iechyd pwrpasol ar gyfer sefydliadau iechyd ymddygiadol. Roedd gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu drwy archwiliadau, ymarfer myfyriol, trafodaethau tîm a chyfarfodydd llywodraethu. Roedd cyfarpar wedi cael ei wasanaethu'n briodol, ac roedd gwybodaeth a chofnodion cleifion wedi'u diogelu drwy systemau diogel a dulliau rheoli mynediad clir.

Roedd y gwasanaeth wedi hybu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyfranogiad ystyrlon. Roedd y cleifion wedi cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am brydau bwyd, lluniaeth a meddyginiaethau, i gyfrannu at y broses o gynllunio bywydleni, ac i fynegi pryderon drwy gyfarfodydd cymunedol wythnosol. Nodwyd bod y staff yn hawdd mynd atynt ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cynnal presenoldeb gweladwy a chefnogol. At ei gilydd, roedd y trefniadau hyn yn dangos diwylliant adeiladol lle roedd adborth gan staff a chleifion yn llywio gwelliannau.

Roedd y gwasanaeth yn nodi cyfleoedd i gryfhau hygyrchedd, y trefniadau ar gyfer goruchwyllo gwaith glanhau, gwiriadau ar gyffuriau a reolir, trefniadau diogelwch yn ystod y nos ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â bagiau plastig, gan ddarparu sail gadarnhaol ar gyfer datblygu parhaus.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ar sawl achlysur, roedd y cofnodion 'Faint a roddwyd' a 'Rhoddwyd gan (llofnod)' yn y gofrestr cyffuriau a reolir wedi'u llofnodi'n ddeuol, ond nid gan ddau aelod o staff 'hyfforddedig mewn meddyginiaethau' cymwys fel sy'n ofynnol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried y gallu i gael gafael ar fapiau plastig er mwyn lleihau'r risg o fygu
- Adolygu'r trefniadau nos er mwyn diogelu cleifion a staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân, diogel a chefnogol, gydag arferion atal a rheoli heintiau wedi'u hymgorffori
- Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau unigol ynghylch beth roeddent yn ei fwya, ble a phryd
- Roedd y trefniadau diogelu yn cefnogi diwylliant cadarnhaol lle'r oedd y staff a'r cleifion yn deall sut y byddai pryderon yn cael eu mynegi a'u rheoli pe bai angen.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelodd AGIC fod y gwasanaeth wedi dangos trefniadau cadarnhaol a sefydledig o ran llywodraethu, rheoli digwyddiadau a datblygu'r gweithlu. Roedd goruchwyliaeth gan uwch-reolwyr wedi'i chynnal drwy ymweliadau bob chwe mis gan yr unigolyn cyfrifol, yn cynnwys ymweliadau dirybudd, ac roedd sesiynau trosglwyddo, cyfarfodydd, archwiliadau a gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol o risgiau clinigol, meddyginiaethau, trefniadau atal a rheoli heintiau, cyfarpar a'r amgylchedd gofal. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda ac roedd y polisïau cyffredol yn hygyrch i'r staff.

Roedd cleifion, perthnasau a gofalwyr wedi cael cyfleoedd clir i fynegi pryderon, gan gynnwys yn ddienw, ac roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored drwy gyfarfodydd cymunedol, adborth amserol ac arddangosfeydd "Dywedoch chi, gwnaethom ni". Roedd digwyddiadau wedi cael eu hadolygu drwy drefniadau adrodd sefydledig, ac roedd gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhannu mewn cyfarfodydd tîm a llywodraethu er mwyn gefnogi gwelliant parhaus.

Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi cael eu cwblhau, roedd y trefniadau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn golygu bod modd diwallu anghenion y cleifion yn ddiogel, ac roedd y staff yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwyllo'n briodol. Roedd goruchwyliaeth reolaidd, trefniadau arfarnu a sefydlu, a rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i rolau yn paratoi'r staff ymhellach ar gyfer eu cyfrifoldebau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal llwybrau archwilio clir sy'n dangos bod y staff wedi adolygu newidiadau i bolisïau a hysbysiadau diogelwch
- Adolygu'r trefniadau staffio dros nos yn unol ag aciwtedd a risgiau gweithio ar eich pen eich hun.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ymarfer da mewn perthynas â llywodraethu ac atebolrwydd
- Rheoli pryderon, digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd
- Recriwtio a chefnogi a datblygu'r gweithlu.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion ar y gofal yn y clinig ar gyfer yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2026. Cafwyd cyfanswm o chwe ymateb gan gleifion yn y clinig hwn. Roedd pob claf ond un yn cytuno bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Nododd y cleifion:

"Gorfod cysgu yn y coridor ar sofffa ac nid oes cyfle i ddefnyddio eich ystafell yn ystod y broses ddadwenwyno. Cefais wneud hynny ar y trydydd diwrnod, ar ôl gofyn bob dydd cyn hynny. Roeddwn yn cael gwiriadau pwysedd gwaed bob awr ar y pryd, felly fawr ddim cwsg."

"Mae fy mhrofiad yma wedi bod mor fuddiol. Mae staff wrth law bob amser unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, byddwn yn argymhell i bobl eraill gael cymorth yma. Yr unig beth y byddwn yn ei awgrymu yw cael aelod arall o staff yn ystod y nos."

"{Hoffwn weld} Gweithgareddau yn cael eu darparu y tu allan i'r pedair wal hyn. Deall anghenion unigol. Mae'r gofal adsefydlu hwn yn cael ei werthu gan y perchennog, ond nid oes dim o'r hyn a ddisgrifiwyd wedi'i roi ar waith. Y pryderon mwyaf - cael meddyginiaeth heb i neb ofyn am fy enw na'm dyddiad geni, dim ond un aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod y nos – ofnadwy, naw claf mewnol gydag un fenyw yn ystod y nos, mae menywod wedi dweud pa mor ofnus maent yn teimlo. Dim gwiriadau cefndir."

"{Hoffwn weld} Yr ystafelloedd ar agor amser cinio pan fydd gennym amser i ddefnyddio ein ffonau er mwyn gallu gwneud galwadau ffôn sensitif/personol. Mwy nag un aelod o staff gyda'r nos. Gan fod y drysau'n cael eu cadw ar agor rwy'n teimlo'n agored i niwed ac mae hynny'n effeithio ar fy nghwsg, sy'n hanfodol ar gyfer fy adferiad."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd ystod o wybodaeth ac adnoddau ar gael i'r cleifion i hybu iechyd, llesiant, annibyniaeth a ffyrdd iachach o fyw. Roedd deunyddiau hybu iechyd a oedd yn berthnasol i'r grŵp cleifion ar gael ym mhob rhan o'r lleoliad, gan gefnogi unigolion i gynnal a gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol. Roedd y cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth iechyd meddwl a chaethiwed allanol lle bo hynny'n briodol. Dywedwyd wrthym fod bwyta'n iach yn cael ei annog, ac roedd dewisiadau bwyd iach ar gael.

Roedd yr amgylchedd yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar lesiant holistaidd. Roedd “cornel dawelu” bwrpasol yn darparu ardal gefnogol a oedd yn ystyried anghenion iechyd emosiynol a chorfforol. Roedd amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon ar gael i'r cleifion, gan gynnwys gemau bwrdd, deunyddiau celf ac adnoddau cymunedol a oedd ar gael yn hwylus i bawb. Roedd y cyfleusterau awyr agored yn cynnwys ardaloedd eistedd, ardal smygu a phrosiect garddio a oedd yn cael ei ddatblygu lle byddai'r cleifion yn gallu tyfu llysiau.

Er bod cyfleoedd ar gael i wneud ymarfer corff, gan gynnwys cyfle i ddefnyddio campfa leol ar ôl wyth wythnos, roedd yr adborth gan gleifion yn awgrymu y byddent yn croesawu opsiynau ymarfer corff ychwanegol. Dylai'r gwasanaeth ystyried archwilio rhagor o gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer gweithgarwch corfforol. Dywedodd un claf:

“Mae ymarfer corff yn bwysig ar gyfer fy iechyd meddwl, hyfforddi yn y gampfa fel arfer.”

Urddas a pharch

Drwy gydol yr arolygiad, gwelwyd aelodau o'r staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd caredig, parchus a chefnogol. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff bob amser yn hawdd mynd atynt, yn gwrando arnynt ac yn eu trin yn dda.

Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo annibyniaeth ond yn darparu cymorth lle bo angen. Roedd y datganiad o ddiben yn amlinellu mai dim ond y gofal personol lleiaf a oedd yn cael ei ddarparu yn ystod y broses ddadwenwyno, a bod dull “dim cyffwrdd” yn cael ei fabwysiadu lle bynnag y bo modd. Gallai'r staff gynnig anogaeth, arweiniad a chymorth i roi tasgau yn y drefn gywir. Roedd y staff nyrsio yn darparu gofal o fewn eu cwmpas proffesiynol, megis gofalu am rwymynnau clwyfau. Lle byddai anghenion gofal ychwanegol yn codi, gellid gwneud atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol allanol, gan gynnwys therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a nyrsys ardal. Fodd bynnag, nododd un claf ei bod yn anodd mynychu'r holl grwpiau therapiwtig gorfodol yn ystod y broses ddadwenwyno, ac roedd o'r farn y gellid ystyried mwy o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer gorffwys ac adferiad yn ystod cyfnodau o salwch corfforol a chwsg gwael.

Roedd ystafelloedd gwely preifat, en suite, ar gael i'r rhan fwyaf o gleifion, roedd dwy ystafell wely â chyfleusterau a rennir, ac roedd y cleifion yn cael gwybod am hyn cyn iddynt gael eu derbyn. Roedd gan y gwasanaeth ystafell hygyrch ar y llawr gwaelod hefyd. Gellid storio eiddo personol yn ddiogel mewn cypyrddau a wardrobau y gellir eu cloi, ac roedd y cleifion yn cael eu hannog i bersonoli eu hardaloedd byw.

Roedd y gwasanaeth yn cynnig sawl cyfle i'r cleifion gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Roedd ardaloedd cymunedol rhyw cymysg ar gael ar gyfer therapi grŵp, gweithgareddau hamdden a rhyngweithio cymdeithasol. Roedd

gweithgareddau cymunedol ar gael i'r cleifion hefyd, gan gynnwys triapiau siopa gyda chwmni. Roedd cyfleusterau ystafell ymolchi a chawod ar gael, gan gynnwys darpariaeth i fenywod yn unig. Fodd bynnag nid oedd un cyfleuster ar gael i'w ddefnyddio nes bod un newydd yn cael ei osod.

Roedd rhai agweddau ar yr ymarfer yn effeithio ar ymdeimlad y cleifion o breifatrwydd a diogelwch, gan fod cyfnod cychwynnol y broses ddadwenwyno yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arsylwadau corfforol ar gleifion yn ystod y nos. O ganlyniad, roeddent yn cael eu deffro i'w monitro ac nid oedd drysau'r ystafelloedd gwely yn cael eu cloi dros nos. Dywedodd rhai cleifion fod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n agored i niwed ac yn effeithio ar eu gallu i gysgu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch yr amseroedd cyfyngedig yr oedd modd defnyddio ffônau symudol, ac achlysuron pan mai dim ond un aelod o staff a oedd ar ddyletswydd dros nos.

Ar y cyfan, nododd y cleifion eu bod yn teimlo bod y staff yn eu parchu a'u gwerthfawrogi, ac roedd y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo urddas, parch ac annibyniaeth. Roedd cyfleoedd o hyd i gryfhau profiad y claf ymhellach drwy adolygu'r trefniadau dros nos, mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd ynghylch teimlo'n agored i niwed, ac ystyried mwy o hyblygrwydd er mwyn diwallu anghenion unigol yn ystod y broses ddadwenwyno.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r lefelau staffio a gwneud yn siwr bod mwy nag un aelod o'r staff ar ddyletswydd dros nos er mwyn sicrhau diogelwch a gofal y cleifion. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid cael asesiad risg ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion yn y lleoliad.

Yn yr holiadur i gleifion, dywedodd pob un o'r cleifion fod y staff yn eu trin ag urddas, ac roedd pob claf ond un o'r farn bod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ar gael ac yn hygyrch drwy'r datganiad o ddiben a oedd wedi'i arddangos yn y cyntedd a'r canllaw i gleifion a oedd yn cael ei ddarparu adeg derbyn. Roedd hyn yn cynnwys manylion am wasanaethau eirioli, sut i gysylltu ag AGIC, trefniadau ymweld, y broses gwyno a sut i fynegi pryderon. Roedd hysbysfwrdd gwybodaeth am staff ar gael hefyd i helpu cleifion ac ymwelwyr i adnabod personél allweddol. Nid oedd y gwasanaeth yn darparu llety i gleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gwelwyd bod gwybodaeth a oedd yn cynnwys manylion cyfrinachol am gleifion yn cael ei chadw'n briodol ac i ffwrdd o olwg y cyhoedd, a bod manylion adnabod cleifion wedi'u cyfyngu i lythrennau cyntaf eu henwau pan oeddent yn cael eu harddangos at ddibenion gweithredol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y gwasanaeth rai mesurau ar waith i gefnogi unigolion ag anghenion cyfathrebu, synhwyraidd a gwybyddol. Roedd arwyddion darluniadol ar gael ar gyfer ardaloedd allweddol, megis ystafelloedd ymolchi, a dywedodd y staff fod anghenion unigol yn cael eu hasesu cyn derbyn cleifion er mwyn sicrhau y gellid gwneud addasiadau priodol. Gellid trefnu gwasanaethau cyfieithu a chymhorthion cyfathrebu lle bo angen, yn seiliedig ar anghenion unigol. Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu yn Saesneg yn bennaf, er bod rhai deunyddiau, gan gynnwys hysbysiadau diogelwch rhag tân, ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, gyda geiriau allweddol yn Gymraeg wedi'u harddangos o fewn y gwasanaeth.

Roedd y cleifion yn cael llyfrau nodiadau adeg eu derbyn i'w helpu i ddysgu a deall cynnwys y rhaglen. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion yn briodol, gan ddefnyddio iaith glir a chefnogol.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd pob claf a ymatebodd i'r holiadur fod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd pob claf ond un fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr amser, a dywedodd pedwar o'r chwe chlaf eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno wrth wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

O ran y driniaeth a ddarperir, dywedodd pob un o'r cleifion fod y gost wedi'i hegluro cyn y driniaeth, eu bod wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol, a bod y staff wedi darllen eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn derbyn triniaeth newydd, a dywedodd pob claf ond un eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a'u risgiau a'u manteision.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno'n gryf bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth gyflawni eu gofal, gyda dau o'r tri chlaf a ymatebodd yn dweud bod y staff yn darparu gofal iddynt pan oedd ei angen arnynt.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dangosodd y lleoliad ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol ar waith, yn amlinellu ymrwymiad y sefydliad i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi

amrywiaeth a pharchu hawliau pob unigolyn. Roedd ein trafodaethau â'r staff yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn ar lefel ymarferol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael croeso, eu cefnogi a'u trin yn deg, a nododd un nyrs ei bod wedi cael cymorth effeithiol wrth ymuno â'r gwasanaeth. Siaradodd aelodau eraill o'r staff yn gadarnhaol hefyd am weithio yn y sefydliad.

Roedd mesurau ar waith i amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu ac i sicrhau bod y gwasanaethau'n hygyrch i'r rhai â nodweddion gwarchodedig. Roedd hyn yn cynnwys ystafell wely hygyrch ar y llawr gwaelod a gynlluniwyd yn bwrpasol, ynghyd â ramp i gyrraedd yr adeilad, ardal hygyrch i gadeiriau olwyn o amgylch y gwely, gwely proffil isel a chyfleuster ystafell wlyb. Roedd yr addasiadau hyn yn cynorthwyo cleifion ag anghenion symudedd i gael mynediad cyfartal at y gwasanaeth. Dywedodd y staff fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin yn unol â'u rhyw a nodwyd a'u henw a ffefrir.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am eu hawliau a sut i fynegi pryderon. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaethau eirioli wedi'u harddangos yn amlwg yn ystod yr arolygiad, a gallai'r gwasanaeth wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn.

Roedd ardaloedd preifat, gan gynnwys ystafelloedd tawel, ar gael i'r cleifion ar gyfer cyfarfodydd â theulu a ffrindiau. Dywedwyd wrthym fod ymwelwyr yn anghyffredin oherwydd bod llawer o'r cleifion yn byw y tu allan i'r ardal leol. Darparwyd tystiolaeth o hyblygrwydd wrth gefnogi cyswllt teuluol, gan gynnwys trefniadau i glaf ddychwelyd i ardal ei gartref yn dilyn profedigaeth.

Yn seiliedig ar yr adborth gan gleifion, roedd un maes posibl i'w wella yn ymwneud â'r polisi ffonau symudol. Roedd yr adborth hwn yn dangos nad oedd yr amseroedd a ganiateir i'w defnyddio bob amser yn cefnogi cyswllt â sefydliadau allanol, megis banciau neu feddygyfeydd, yn ystod oriau gwaith arferol. Yn ogystal, roedd y polisi yn nodi mynychu gwasanaethau eglwysig fel rheswm dros ddefnyddio ffôn symudol, ond nid oedd yn benodol yn cydnabod mynychu gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â ffydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi ffonau symudol er mwyn sicrhau ei fod yn hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a chysondeb ar draws pob crefydd a chred, yn unol â'i ymrwymïadau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y diwylliant cadarnhaol o fod yn agored ac ymgysylltu yn helpu i sicrhau bod lleisiau cleifion yn cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i rannu eu barn drwy gyfarfodydd cymunedol rheolaidd, blwch awgrymiadau, opsiynau i roi adborth drwy god ymateb cyflym (QR), a thrafodaethau anffurfiol ag aelodau o'r staff. Roedd y trefniadau hyn yn sicrhau y

gallai'r cleifion fynegi pryderon, gwneud awgrymiadau a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau yn y gwasanaeth.

Roedd gwybodaeth am sut i roi adborth wedi'i harddangos mewn ardaloedd cymunedol ac roedd ar gael yn hawdd i gleifion, teuluoedd a gofalwyr. Roedd y weithdrefn gwyno ar gael yn y datganiad o ddiben, a oedd wedi'i arddangos yn y cyntedd, ac roedd gwybodaeth yn ymwneud â chyrff allanol, gan gynnwys AGIC, yn cael ei darparu hefyd. Roedd hyn yn cefnogi'r cleifion i geisio cyngor annibynnol neu fynegi pryderon yn allanol os oedd angen.

Roedd y broses o ymgynghori â chleifion yn cael ei hwyluso'n bennaf drwy gyfarfodydd cymunedol rheolaidd, lle roedd pryderon, awgrymiadau a datblygiadau i wasanaethau yn cael eu trafod. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi materion ac yn hyderus y byddai'r staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol i'w barn. Cafodd yr adborth a gasglwyd drwy'r fforymau hyn ei gofnodi a chymerwyd camau gweithredu lle bo angen, gyda thystiolaeth o'r canlyniadau'n cael ei chyfleu drwy arddangosfa amlwg "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".

Roedd y gwasanaeth hefyd yn elwa ar oruchwyliaeth ac ymgysylltiad gan uwch reolwyr. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob chwe mis, gan roi cyfle ychwanegol i gasglu barn cleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cynnal presenoldeb gweladwy ac ymarferol yn y gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd yr amgylchedd yn hygyrch, yn lân, yn daclus, yn ddiogel ac yn addas at y defnydd a fwriadwyd. Roedd rampiau allanol a mewmol wedi'u darparu, ynghyd ag ystafell wely fawr ar y llawr gwaelod ac ystafell ymolchi hygyrch i gleifion ag anghenion symudedd. Cafwyd trafodaethau â'r gwasanaeth ynghylch adolygu'r llwybrau awyr agored a'r llwybrau mynediad mewmol er mwyn nodi gwelliannau ymarferol i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu gymhorthion cerdded. Ystyriwyd ei bod yn anodd symud o gwmpas y lleoliad, gyda choridau cul, nifer o risiau a dim ond llwybr concrit cul yn yr ardd. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod ymdrechion wedi'u gwneud i ddarparu llety hygyrch o fewn cyfyngiadau'r math hwn o adeilad a'i ôl troed.

Gallai'r cleifion ddefnyddio'r ardal awyr agored yn ddirwystr ac roedd y staff bob amser yn cario larymau diogelwch personol gyda nhw. Roedd teledu cylch cyfyng (CCTV) drwy'r ardaloedd cymunedol ac roedd dull cymunedol yn cefnogi diogelwch yn ystod y dydd. Roedd preifatrwydd yn cael ei hyrwyddo drwy sawl ardal drafod dawel neu ar wahân ar gyfer sgysiau unigol. Roedd yr ystafelloedd gwely wedi bod yn cael eu

hailaddurno a gwnaethom drafod â'r rheolwr cofrestredig pryd y byddai'r gwaith o osod clychau galw uwchben y gwelyau ac yn yr ystafelloedd ymolchi yn cael ei gwblhau, a chadarnhaodd y byddai'r camau hyn yn cael eu cwblhau cyn bo hir. Ymatebodd y staff yn brydlon pan dorrodd cadair yn ystod yr arolygiad a chawsant wared arni ar unwaith. Roedd y canfyddiadau hyn yn dangos rheolaeth leol ymatebol ac ymrwymiad parhaus i gynnal amgylchedd gofal diogel a chefnogol. Trafododd y gwasanaeth sut y byddai'n parhau â'i raglen o welliannau amgylcheddol drwy orffen ailaddurno'r ystafelloedd gwely ac adnewyddu'r ardaloedd cymunedol lle bo angen.

O ran hygyrchedd yr adeiladau, dywedodd tri o'r pum claf a fynegodd farn yn yr holiadur fod yr adeilad yn hygyrch. Dywedodd un claf:

"Cyfleusterau gwael, o'r gwely sy'n anghyfforddus iawn ac yn teimlo'n rhad iawn i'r tapiau sydd wedi'u gosod y ffordd anghywir. Dodrefn yr ardd yn wael iawn, darpariaeth ar gyfer pobl â nam ar eu golwg yn wael."

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y gwasanaeth wedi sefydlu trefniadau cadarnhaol ar gyfer rheoli diogelwch amgylcheddol, risgiau clinigol a digwyddiadau. Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n flynyddol, gyda'r camau gweithredu a nodwyd wedi'u hamlygu, eu cwblhau a'u diweddar'u'n unol â hynny. Roedd risgiau o ran pwyntiau clymu wedi cael eu hasesu'n rheolaidd, ac roedd torwyr clymau ar gael yn hwylus ar bob llawr, gyda phosteri map llawr yn dangos eu lleoliadau.

Roedd ansawdd, diogelwch a risg wedi cael eu monitro drwy archwiliadau, ymarfer myfyriol, trafodaethau tîm a champau gweithredu yn deillio o adroddiadau. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael gwybod am ddigwyddiadau ac roeddent wedi'u cofnodi'n electronig ar system Kipu, gyda goruchwyliaeth ar y cyd gan y tîm rheoli, croeswrio archwiliadau a thrafodaethau mewn cyfarfodydd llywodraethu. Roedd themâu a gwersi a ddysgwyd gan wasanaethau eraill hefyd wedi cael eu hystyried mewn modd rhagweithiol er mwyn cefnogi dulliau atal. Roedd y trefniadau diogelwch tân wedi cynnwys asesiad risg a gwblhawyd, cyfarpar a gweithdrefnau priodol, a chofnodlyfr tân a oedd yn cael ei gadw.

Mewn ymateb i wybodaeth ddatblygol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai'r asesiadau risg amgylcheddol a'r asesiadau risg cleifion hefyd fod wedi ystyried yn benodol y gallu i gael gafael ar fapiau plastig, gan gynnwys bagiau bin bach, a dylid bod wedi cofnodi mesurau cymesur i leihau'r risg o fygu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y gallu i gael gafael ar fapiau plastig, gan gynnwys bagiau bin, yn yr asesiad risg amgylcheddol er mwyn lleihau'r risg o fygu.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Drwy gydol yr arolygiad gwelwyd bod yr amgylchedd o safon dda ar y cyfan. Roedd yr ardaloedd clinigol a chymunedol yn lân, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod, ac roedd ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon foddhaol. Roedd yr amgylchedd ffisegol yn ymddangos mewn cyflwr da, gyda'r waliau, y nenfydau, y lloriau a'r dodrefn yn gyfan ac yn addas i gefnogi arferion glanhau effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r trefniadau glanhau yn elwa ar fwy o oruchwyliaeth, gan gynnwys tynnu llwch o arwynebau uchel yn rheolaidd a storio mopiau'n briodol mewn cyflwr glân a sych.

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi gofynion atal a rheoli heintiau, megis ystafelloedd ar wahân y gellid eu defnyddio ar gyfer ynysu cleifion neu nyrsio ataliol lle bo angen. Gwelsom fod arferion atal a rheoli heintiau o ddydd i ddydd wedi'u sefydlu'n gadarn. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael ac mewn cyflwr gweithio da ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio. Gwelsom y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol ac roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas, gan gynnwys sinciau, sebon a gel alcohol, ar gael i staff, cleifion ac ymwelwyr. Roedd arwyddion clir yn hyrwyddo hylendid dwylo ac arferion atal a rheoli heintiau wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r lleoliad, ac roedd y cleifion yn cael eu hannog a'u cefnogi gan y staff i gynnal arferion hylendid dwylo da, megis golchi eu dwylo cyn prydau bwyd.

Roedd tystiolaeth bod amserlenni glanhau yn cael eu cynnal a'u monitro yn unol â threfniadau lleol. Dangosodd y gwasanaeth agwedd gadarnhaol tuag at lendid drwy gael staff cymorth domestig yn bresennol yn aml a thrwy gynnwys y cleifion mewn dyletswyddau therapiwtig a oedd yn cyfrannu at gynnal yr amgylchedd.

Roedd hanner y cleifion a fynegodd farn yn yr holiadur yn credu bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a dywedodd pump o'r chwe chlaf a ymatebodd fod y lleoliad yn lân yn eu barn nhw.

Maeth

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau unigol ynghylch beth roeddent yn ei fwyta, ble a phryd. Roedd y prif brydau bwyd wedi cael eu paratoi gan gogydd, ac roedd y cleifion hefyd wedi gallu prynu a storio eu bwyd eu hunain. Roedd bwydlen wythnosol yn cael ei harddangos ar fwrdd gwyn ac roedd y cleifion wedi cael eu hannog i drafod dewisiadau neu ofynion deietegol penodol â'r cogydd, a oedd yn darparu dewisiadau amgen lle bo angen. Roedd y bwydlenni'n cynnwys opsiynau iach, megis salad, ac roedd gwybodaeth am fwyta'n iach wedi'i hyrwyddo drwy bosteri amrywiol. Roedd y cleifion yn gallu paratoi eu diodydd a'u byrbrydau eu hunain y tu allan i

sesiynau gwaith grŵp, a oedd yn cefnogi annibyniaeth a hyblygrwydd o ran cael lluniaeth. Roedd y trefniadau storio bwyd wedi'u rheoli drwy ddisgwyliadau clir bod eitemau'n cael eu storio, eu dyddio, eu gwirio a'u taflu'n briodol yn ôl y gofyn. Roedd y bwyd a archwiliwyd wedi'i storio'n briodol ac o fewn ei ddyddiad defnyddio.

Roedd y bwyd yn ymddangos yn flasus, ac roedd prydau bwyd yn cael eu gweini drwy hatsh a oedd yn agor i ardal fwyta gymunedol ac ardal paratoi byrbrydau. Gwelsom drefniadau cadarnhaol lle'r oedd y cleifion yn cyfrannu at y broses o gynllunio ac adolygu bwydlenni, lle dogfennwyd yn rheolaidd yr ystod o ddewisiadau iach a diwylliannol briodol a oedd ar gael, a lle cynhaliwyd tystiolaeth glir o gyfleoedd i gael prydau bwyd, byrbrydau, diodydd poeth ac oer, gwiriadau storio bwyd a chyfyngiadau a aseswyd yn unigol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn drefnus ar y cyfan. Roedd meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, wedi'u storio'n ddiogel, gyda chypyrddau, trolïau meddyginiaeth ac oergelloedd wedi'u cloi, ac roedd tymheredd yr oergelloedd wedi'i fonitro'n gyson yn unol â gweithdrefnau lleol. Roedd y meddyginiaethau brys yn bodloni canllawiau cenedlaethol, yn gyfredol, ac wedi'u hategu gan system amnewid a gwirio sefydledig drwy gysylltiadau â'r fferyllfa gymunedol. Roedd cyfarpar adfywio priodol gan gynnwys diffibrilwyr ar gael, roedd y staff yn deall proses adrodd y cynllun Cerdyn Melyn, ac roedd darparwr allanol wedi darparu hyfforddiant ar argyfyngau meddygol ac adfywio.

Roedd y cleifion wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac adolygiadau ynghylch eu meddyginiaethau ac roedd y staff wedi bod ar gael i drafod triniaethau a darparu taflenni gwybodaeth pan ofynnwyd amdanynt. Roedd y cofnodion rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau, gan gynnwys manylion adnabod y cleifion, penderfyniadau ynghylch rhoi meddyginiaeth a'r rhesymau dros hepgor dosau. Fodd bynnag, ar sawl achlysur, roedd y cofnodion 'Faint a roddwyd' a 'Rhoddwyd gan (llofnod)' yn y gofrestr cyffuriau a reolir wedi'u llofnodi'n ddeuol, ond nid gan ddau aelod o staff 'hyfforddedig mewn meddyginiaethau' cymwys fel sy'n ofynnol. **Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC y manylir arni yn [Atodiad B](#).**

Roedd meddyginiaethau wedi'u hadlewyrchu mewn cynlluniau gofal unigol, roedd y broses bresgripsiynu o fewn terfynau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ac wedi'i hadolygu'n rheolaidd, ac roedd meddyginiaethau gwrthseicotig neu dawelyddu wedi'u rhoi fel y'u presgripsiwyd. Roedd y trefniadau llywodraethu wedi'u hategu gan bolisi rheoli meddyginiaethau a pholisi cyffuriau a reolir. Yn ogystal, roedd trefniadau cydweithio agos ar waith â'r fferyllfa leol ynghyd â ffordd adeiladol o weithio lle roedd gwallau o ran meddyginiaeth wedi'u trafod â'r cleifion a'r clinigwyr ac wedi'u defnyddio fel cyfleoedd i ddysgu.

Ers hynny, roedd y gwasanaeth wedi trafod sut y byddai'n cryfhau'r trefniadau sicrwydd mewn perthynas â chyffuriau a reolir drwy gwblhau a dogfennu gwiriadau stoc mor aml

ag sy'n ofynnol gan ei bolisi, cysoni'r stoc â'r gofrestr cyffuriau a reolir a chofnodion electronig, ac adolygu unrhyw anghysondebau yn brydlon. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn achos diazepam, gan ei fod wedi cael ei roi'n amlach, weithiau sawl gwaith y dydd, ond roedd cyfnodau o hyd at 28 diwrnod wedi bod rhwng gwiriadau.

Cafwyd rhagor o wybodaeth i gadarnhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi, eu llofnodi a'u rhoi yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. Yn ogystal, cadarnhaodd y gwasanaeth fod polisi tawelyddu cyflym priodol ar gael, yn gyfredol ac yn hygyrch i'r aelodau perthnasol o'r staff. Roedd y camau gweithredu hyn wedi adeiladu ar y systemau cadarnhaol a oedd eisoes ar waith ac wedi darparu tystiolaeth gliriach o gydymffurfiaeth gyson.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y trefniadau diogelu yn cefnogi diwylliant cadarnhaol ar y cyfan, lle'r oedd y staff a'r cleifion yn deall sut y byddai pryderon yn cael eu mynegi a'u rheoli pe bai angen. Roedd y staff yn gwybod ble i gael gafeael ar weithdrefnau diogelu, ac roedd polisïau ar gael ar-lein ac ar bapur mewn ffolderi polisïau. Roedd dyddiad ar y polisïau diogelu, roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac roedd system rheoli fersiynau glir ar waith ar eu cyfer, fel yr oedd y polisi chwythu'r chwiban. Roedd hyfforddiant wedi helpu'r staff i ddeall sut i gysylltu â'r bobl briodol a chwblhau'r ddogfennaeth ofynnol. Roedd y staff yn ymwybodol o lwybrau chwythu'r chwiban, a dywedodd y cleifion fod y staff yn hawdd mynd atynt ac yn gwybod â phwy y gallent siarad am bryderon. Roedd cymorth eiriolaeth wedi bod ar gael drwy gyfeirio at wasanaethau perthnasol ac roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn gyffredinol.

Byddai'r cleifion yn mynegi pryderon ac yn siarad mewn cyfarfodydd cymunedol. Un thema a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y lefelau staffio dros nos, a'r ffaith eu bod yn teimlo nad oeddent yn ddigonol i gynnal diogelwch y cleifion. Rhoddwyd enghraifft lle, pe bai'r unig aelod o'r staff yn ymateb i argyfwng, beth fyddai'n digwydd pe bai ar rywun arall ei angen, neu sut y byddai'n gallu galw am gymorth a pharhau i roi triniaeth adfywio cardiowlmonaidd (CPR) pe bai rhywun yn cael ataliad ar y galon. Roedd ymdeimlad y cleifion o ddiogelwch dan sylw.

Roedd pryderon diogelu wedi'u cofnodi'n electronig ac yng nghofnodion y cleifion, ac roedd cofrestrau'n cael eu cynnal a goruchwyliaeth reolwyr yn cael ei darparu drwy systemau electronig, adroddiadau llywodraethu ansawdd chwarterol, cyfarfodydd tîm misol a dysgu ar y cyd drwy e-bost. Roedd risg wedi'i rheoli drwy asesiadau cyn derbyn, ystyried risgiau hysbys, presenoldeb staff, teledu cylch cyfyng lle bo'n berthnasol, trefniadau ymweld clir a chysylltiadau â sefydliadau allanol, gan gynnwys timau diogelu yr awdurdodau lleol. Nid oedd y gwasanaeth yn trin cleifion sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Er mwyn cryfhau profiad y cleifion o ddiogelwch, rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried yr adborth ar y trefniadau dros nos, yn enwedig y gallu i ddefnyddio'r ystafelloedd gwely, aflonyddwch a achosir gan gloch y drws, darpariaeth mewn

argyfwng ac argaeledd ail aelod o staff, a chofnodi'r asesiad a'r camau a gymerwyd drwy ei brosesau llywodraethu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar. Roedd cwmni allanol yn cynnal a chadw'r dyfeisiau meddygol, ac roedd cymorth cynnal a chadw trydanol yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen. Roedd sticeri gwirio/gwasanaethu cyfredol ar y cyfarpar a welsom, gan gadarnhau bod gwaith gwasanaethu a gwiriadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau. Roedd gweithdrefnau clir ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion yn ei gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i ddefnyddio cyfarpar diffygiol ar unwaith, ei labelu'n unol â hynny, a rhoi gwybod i'r rheolwr cofrestredig, a fyddai'n cysylltu â'r darparwr cynnal a chadw. Roedd cofnodion yn cael eu cadw'n electronig ac ar ffurf copi caled.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, disgrifiodd y staff amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol lle roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau wedi galluogi gofal diogel ac amserol i'r cleifion yn gyffredinol. Roedd y staff wedi gallu cwblhau cyfarfodydd un-i-un, cynlluniau gofal ac asesiadau risg o fewn yr amserlen priodol, gyda chefnogaeth goruchwyliaeth chwarterol, dull drws agored a phresenoldeb gweladwy'r rheolwr cofrestredig fewn y gwasanaeth. Roedd canllawiau perthnasol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) a'r Cod Ymarfer wedi bod ar gael, ac roedd newidiadau i bolisiâu, gweithdrefnau a chynghor diogelwch wedi'u cyfleu drwy e-bost, WhatsApp a chyfarfodydd tîm.

Roedd canfyddiadau archwiliadau clinigol wedi'u rhoi ar waith yn ymarferol ac roedd cofnodion wedi cael eu monitro a'u cadw'n fewnol. Roedd y trefniadau mewn perthynas â phenderfyniadau Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd wedi aros yn briodol gyda meddygon teulu'r unigolion. Er bod y trefniadau staffio wedi gweithio'n dda ar y cyfan, roedd y staff wedi nodi anhawster achlysurol wrth sicrhau staff banc dibynadwy. Esboniodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'r gwasanaeth yn parhau i gryfhau ac ehangu ei gronfa o staff banc dibynadwy er mwyn cynnal gwydnwch a chefnogi gofal diogel yn gyson.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nodwyd ymrwymiad cadarnhaol i wella ansawdd yn barhaus drwy ei gofrestr gwelliant parhaus a gwella ansawdd. Roedd awgrymiadau gan staff wedi'u hadolygu ar y cyd a'u rhoi ar waith lle bo'n briodol, ac roedd adborth gan gleifion wedi cael ei werthfawrogi fel rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau. Roedd archwiliadau clinigol wedi cael eu defnyddio fel adnodd ar gyfer gwella drwy Kipu, ac roedd digwyddiadau niweidiol,

cwynion a chamgymeriadau a fu bron â digwydd wedi cael eu hystyried yn gyfleoedd ar gyfer dysgu sefydliadol. Roedd y cleifion hefyd wedi bod yn cymryd rhan drwy gyfarfodydd cymunedol wythnosol a gynhelir bob bore Llun, lle roeddent wedi gallu mynegi pryderon a myfyrio gyda'i gilydd. Roedd y dull cynhwysol hwn wedi cefnogi cyfathrebu agored ac wedi sicrhau bod barn staff a chleifion wedi cyfrannu at welliant parhaus.

Disgrifiodd y gwasanaeth sut y byddai'n parhau i gynnal ac adolygu ei gofrestr gwella ansawdd, cryfhau'r broses o gofnodi camau gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau, digwyddiadau, cwynion a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, a dogfennu sut y gallai adborth gan staff a chleifion barhau i lywio gwelliannau mesuradwy i wasanaethau.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Dangosodd y gwasanaeth fod systemau a phrotocolau priodol wedi'u sefydlu i gefnogi'r broses o reoli a rhannu gwybodaeth yn ddiogel. Roedd polisi llywodraethu cofnodion a gwybodaeth ar gael, a nododd y gwasanaeth fod canllawiau perthnasol yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu, ei defnyddio a'i chadw yn cael ei rheoli yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu drwy fanylion mewngofnodi unigol i'r staff a disgwyliad clir na fyddai cyfrineiriau'n cael eu rhannu a threfniadau archwilio systemau i ategu atebolrwydd y staff. Roedd gwybodaeth i'w rhannu â sefydliadau partner yn cael ei throsglwyddo gan ddefnyddio ffeiliau cywasgedig wedi'u diogelu gan gyfrinair, a oedd wedi helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn ddiogel a bod gofal da yn cael ei ddarparu i gleifion. At ei gilydd, roedd y trefniadau a welsom wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol bod y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch data yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Rheoli cofnodion

Roedd y gwasanaeth yn cynnal trefniadau rheoli cofnodion diogel a hygyrch. Roedd cofnodion electronig yn cael eu diogelu drwy system a reolir gan gyfrinair, ac roedd cofnodion papur yn cael eu storio mewn cypyrddau wedi'u cloi neu y tu ôl i ddrysau wedi'u cloi. Roedd staff perthnasol wedi gallu cael gafael ar y cofnodion gofynnol ar gyfer eu rolau, gan gefnogi parhad o ran y gwasanaethau a ddarperir a chynnal mesurau diogelwch gwybodaeth addas ar yr un pryd. Cadarnhaodd y gwasanaeth fod polisi cadw cofnodion cyfredol ar waith a'i fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Roedd y gwasanaeth yn adolygu ei bolisi cadw cofnodion yn rheolaidd, yn cadw tystiolaeth o'r adolygiadau hynny ac yn cynnal dulliau rheoli mynediad priodol ar gyfer cofnodion electronig a phapur.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn staff am y clinig ar gyfer yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2026. Gan mai dim ond dau holiadur wedi'u cwblhau a ddaeth i law, nid oedd yn bosibl ffurfio barn yn seiliedig ar yr ymatebion. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan staff yn ystod yr arolygiad roedd:

"Mae ymrwymiad y tîm o staff i ddarparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi creu argraff fawr arnaf yn gyson."

"Mae unrhyw hyfforddiant rwyf wedi dymuno ei gael sy'n berthnasol i'm rôl wedi cael ei roi i mi."

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Dangosodd y gwasanaeth drefniadau llywodraethu a goruchwylio cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion wedi cael eu hadolygu a'u cyflwyno i AGIC yn flaenorol, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol. Roedd goruchwyliaeth gan uwch-reolwyr wedi'i chynnal drwy ymweliadau bob chwe mis gan yr unigolyn cyfrifol, gan gynnwys ymweliadau dirybudd a gynhaliwyd yn unol â rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda. Roedd trefniadau adrodd ac atebolrwydd clir wedi'u nodi yn y polisi llywodraethu. Roedd gwybodaeth wedi'i rhannu'n effeithiol rhwng y rheolwyr a'r staff drwy gyfarfodydd rheolaidd, sesiynau trosglwyddo, negeseuon e-bost, grwpiau WhatsApp, cyfathrebu llafar a hysbysfyrddau.

Roedd y gwasanaeth hefyd wedi sefydlu fframwaith gwella ansawdd a rheoli risg eang. Roedd y trefniadau llywodraethu yn cynnwys sesiynau trosglwyddo dyddiol, cyfarfodydd tîm misol, archwiliadau o gofnodion cleifion a risg glinigol, gwiriadau meddyginiaethau, a gwiriadau dyddiol mewn perthynas â'r diffibriliwr a thymheredd yr oergelloedd. Yn ogystal, roedd yr oergelloedd bwyd yn cael eu monitro, archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, ac roedd prosesau meddyginiaeth, cyfarpar diogelu personol a chyfarpar meddygol yn cael eu hadolygu'n fisol. Roedd digwyddiadau, damweiniau, derbyniadau i'r ysbyty, atgyfeiriadau diogelu a gwersi a chymau gweithredu cysylltiedig wedi cael eu monitro drwy'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd adolygiadau risg chwarterol, sesiynau goruchwylio,

arfarniadau, cyfarfodydd tîm misol a chyfarfodydd llywodraethu ansawdd chwarterol yn cael eu cynnal.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd tystiolaeth wedi dangos bod y polisïau'n gyfredol a bod system rheoli fersiynau ar waith. Roedd gwybodaeth am ddiogelwch wedi dod i law drwy ddiweddariadau allanol, gan gynnwys cylchlythyrau Gofal Cymdeithasol Cymru a rennir yn fewnol drwy lwybrau cyfathrebu sefydledig.

Cafwyd trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig ar sut y byddai'r gwasanaeth yn adeiladu ar y trefniadau cadarnhaol hyn drwy sicrhau bod pob polisi yn cael ei reoli'n gyson o ran fersiynau, ei ddyddio a'i deilwra i gyd-destun rheoleiddio Cymru, gan gyfeirio'n glir at AGIC lle bo'n berthnasol, yn enwedig yn y polisi cwynion.

Trafodwyd sut y dylid cynnal llwybr archwilio ffurfiol i gofnodi pryd roedd y staff wedi darllen a deall newidiadau i bolisïau, a sut roedd hysbysiadau diogelwch allanol gan gyrrff megis yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a Llywodraeth Cymru wedi cael eu hasesu, eu rhoi ar waith a'u monitro. Byddai'r camau gweithredu hyn yn cryfhau'r cysondeb, y tryloywder a'r sicrwydd a ddarperir gan systemau llywodraethu presennol y gwasanaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio i gofnodi pryd roedd y staff wedi adolygu newidiadau i bolisïau neu hysbysiadau diogelwch perthnasol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau sefydledig ar waith ar gyfer rheoli cwynion, digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, ac roedd y dystiolaeth a welsom wedi dangos ymrwymiad cadarnhaol i ddiwylliant agored, ymatebolrwydd a dysgu sefydliadol. Roedd cleifion, perthnasau a gofalwyr wedi gallu mynegi cwynion, gan gynnwys yn ddienw lle bo angen, ac roedd gwybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben, y pecyn derbyn, y canllaw i gleifion a dogfennau ategol eraill. Roedd manylion AGIC wedi'u rhestru mewn deunyddiau perthnasol ac ar y bwrdd awgrymiadau, ac roedd trefniadau eirioli hefyd wedi'u disgrifio yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Roedd y gwasanaeth wedi hyrwyddo ethos o onestrwydd a thryloywder drwy gyfarfodydd cymunedol, wedi cofnodi pryderon llafar neu anffurfiol yng nghofnodion y cleifion, ac wedi'u huwchgyfeirio at y Rheolwr Cofrestredig drwy e-bost lle bo hynny'n briodol. Roedd achwynwyr wedi cael adborth cychwynnol o fewn tri diwrnod ac adborth terfynol o fewn 20 diwrnod, ac roedd gwersi ehangach wedi'u cyfleu drwy gyfarfodydd cymunedol ac arddangosfeydd "Dywedoch chi, gwnaethon ni".

O ran digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, roedd polisïau a gweithdrefnau wedi cefnogi'r prosesau adrodd, ymchwilio a rheoli, gyda'r rheolwr cofrestredig yn cadw trosolwg a gwybodaeth yn cael ei hadrodd yn fisol ac yn

chwarterol i'r timau a'r grwpiau sicrwydd perthnasol. Roedd gwersi a ddysgwyd wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm misol a'u rannu â staff absennol.

Er mwyn adeiladu ar y trefniadau cadarnhaol hyn, disgrifiodd y gwasanaeth gynlluniau i roi proses gyson ar waith i gofnodi, dadansoddi a rhoi gwybod am themâu a thueddiadau sy'n deillio o gwynion, digwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd, hyd yn oed lle nad oedd unrhyw batrymau wedi dod i'r amlwg, fel y gellid dangos camau ataliol a thystiolaeth o ddysgu dros amser, gan gryfhau'r sicrwydd bod y dysgu wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae gan y gwasanaeth brosesau llywodraethu cryf ac mae'n barod i wrando ar adborth. Lle nodir gwelliannau, gweithredir arnynt yn brydlon gyda chynlluniau gweithredu clir a dysgu ar y cyd ar draws y tîm.”

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd y gwasanaeth wedi dangos dull cadarnhaol a sefydledig ar y cyfan o ran llywodraethu'r gweithlu, arferion cyflogaeth, a datblygu a hyfforddi staff. Roedd gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi'u cwblhau, gan gynnwys geirdaon, dogfennau adnabod a chyflogaeth, cofrestriad proffesiynol neu ailddilysu lle bo'n berthnasol, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd cofnodion cyflogaeth yn cael eu cadw'n electronig ar y porth adnoddau dynol ac ar ffurf copi caled yn swyddfa'r rheolwr cofrestredig. Roedd gan y staff ddisgrifiadau swyddi perthnasol ac roedd prosesau ar waith i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu hadolygu'n gyson. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn ystod y dydd yn cynnwys nyrs gofrestrdig, gweinyddwr, cwnselydd a rheolwr cofrestredig, ac roedd cymorth therapiwtig ar gael hefyd, ac roedd un gweithiwr cymorth nos fel arfer yn gweithio dros nos. Roedd gofal ychwanegol wedi'i ddarparu pan oedd angen arsylwadau 15 munud ar un o'r cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, roedd y staff wedi nodi bod y cymysgedd sgiliau, y trefniadau goruchwyllo a'r amser a oedd ar gael wedi eu galluogi i ddiwallu anghenion y cleifion yn ddiogel. Cadarnhawyd hyn hefyd yn sylwadau'r staff yn holiadur AGIC.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis, ac roedd y cofnodion yn cael eu rhannu drwy e-bost fel bod yr aelodau o'r staff nad oeddent yn bresennol yn gallu cael gwybod am yr hyn a drafodwyd. Roedd gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ac enghreifftiau o ymarfer da wedi cael eu trafod ar y cyd a, lle bo'n briodol, yn unigol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd trefniadau goruchwyllo ac arfarnu rheolaidd ar waith, gydag adolygiadau'n cael eu cynnal bob tri mis a'r pedwerydd adolygiad yn ffurfio'r arfarniad blynyddol. Nodwyd bod pob aelod o'r staff yn gyfredol o ran eu hadolygiadau. Roedd y trefniadau sefydlu wedi cynnwys polisi sefydlu a rhestr wirio iechyd a diogelwch, ac roedd y rhaglen hyfforddi yn cwmpasu pynciau gorfodol, dysgu sy'n benodol i rolau, Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol, cymorth seicosymdeithasol a threfniadau gweithio allweddol un-i-un. Roedd y cofnodion yn dangos bod hyfforddiant wedi'i gwblhau ar ymwybyddiaeth o feddyginiaethau a chymhwysedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, adfywio, iechyd a diogelwch, llywodraethu gwybodaeth, diogelwch rhag tân, diogelu, atal a rheoli heintiau, codi a chario, rheoli trais ac ymddygiad ymosodol, ac ymyriadau corfforol lle bo'n berthnasol. Roedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gael i'r staff hefyd ac roedd y rheolwyr yn olrhain hyfforddiant gorfodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: PCP Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 20 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau addas ar waith i roi cyffuriau a reolir i'r cleifion. Nid oedd gwiriadau stoc wythnosol o'r cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gyson yn y Gofrestr Cyffuriau a Reolir chwaith.		
	Ar sawl achlysur, roedd y cofnodion 'Faint a roddwyd' a 'Rhoddwyd gan (llofnod)' yn y gofrestr cyffuriau a reolir wedi'u llofnodi'n ddeuol, ond nid gan ddau aelod o staff 'hyfforddedig mewn meddyginiaethau' cymwys fel sy'n ofynnol.		
	Cafodd y mater hwn ei nodi fel gwelliant gofynnol yn ystod arolygiad mis Gorffennaf 2025. Er bod rhai camau wedi'u cymryd, nid oedd y polisi rheoli meddyginiaethau yn cael ei ddilyn yn llawn.		
Yr hyn sydd angen ei wella			Safon / Rheoliad
1.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli cyffuriau a reolir ar unwaith - Cynnal gwiriad o'r gofrestr cyffuriau a reolir ar unwaith - Sicrhau y caiff cyffuriau a reolir eu gwirio'n wythnosol bob amser - Sicrhau y caiff dosau cyffuriau a reolir eu gwirio a'u llofnodi'n ddeuol gan ddau aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol	Rheoliad 15(5)(a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	

Ymateb i'r risg/canfyddiad/problem	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau addas ar waith i roi cyffuriau a reolir i'r cleifion Ar sawl achlysur, roedd y cofnodion 'Faint a roddwyd' a 'Rhoddwyd gan (llofnod)' yn y gofrestr cyffuriau a reolir wedi'u llofnodi'n ddeuol, ond nid gan ddau aelod o staff 'hyfforddedig mewn meddyginiaethau' cymwys fel sy'n ofynnol.		Rheoliad 15(5)(a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r weithdrefn ar gyfer rhoi Cyffuriau a Reolir wedi'i hatgyfnerthu. Gan ddechrau ar unwaith, rhaid i bob Cyffur a Reolir gael ei wirio a'i lofnodi gan ddau aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n gymwys o ran meddyginiaethau. Ni chaniateir i staff nad ydynt wedi cael hyfforddiant meddygol fod yn dyst i'r broses o roi Cyffuriau a Reolir mwyach. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa y bydd unrhyw wriad o'r broses hon yn cael ei reoli drwy weithdrefnau	Rheolwr Cofrestredig / Tîm Clinigol	Cwblhawyd yn syth ar ôl yr arolygiad

				llywodraethu'r sefydliad.		
2.	Nid oedd gwiriadau stoc wythnosol o'r cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gyson yn y Gofrestr Cyffuriau a Reolir chwaith.		Rheoliad 15(5)(a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Cynhaliwyd archwiliad cyflawn o'r Gofrestr Cyffuriau a Reolir. Cysonwyd yr holl falansau yn erbyn y stoc ffisegol ac ni chanfuwyd unrhyw anghysondebau.	Rheolwr Cofrestredig / Tîm Clinigol	Cwblhawyd yn syth ar ôl yr arolygiad

3.				Mae amserlen ffurfiol ar gyfer gwiriadau wythnosol o'r stoc cyffuriau a reolir wedi'i rhoi ar waith. Mae Nyrs Gofrestredig ddynodedig ac aelod o staff sy'n gymwys o ran meddyginiaethau ac sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn gyfrifol am gwblhau a dogfennu'r cysoniad wythnosol. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliadau llywodraethu misol.		
----	--	--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Swydd: Rheolwr Cofrestredig **Dyddiad:** 22/07/2026

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: PCP Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 20 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
4.	Roedd rhai agweddau ar yr ymarfer yn effeithio ar ymdeimlad y cleifion o breifatrwydd a diogelwch, gan fod cyfnod cychwynnol y broses ddadwenwyno yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arsylwadau corfforol ar gleifion yn ystod y nos. O ganlyniad, roeddent yn cael eu deffro i'w monitro ac nid oedd drysau'r ystafelloedd	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r lefelau staffio a gwneud yn siwr bod mwy nag un aelod o'r staff ar ddyletswydd dros nos er mwyn sicrhau diogelwch a gofal y cleifion. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid cael asesiad risg ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion yn y lleoliad.	Ansawdd Profiad y Claf -Urddas a pharch	Mae'r trefniadau staffio dros nos a'r trefniadau ar gyfer arsylwi ar y broses ddadwenwyno wedi cael eu hadolygu. Mae'r gwasanaeth dros nos safonol yn parhau i fod yn un aelod o staff hyfforddedig. Bydd asesiad risg ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun a lefelau staffio dros	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith ac yn barhaus

	gwely yn cael eu cloi dros nos. Dywedodd rhai cleifion fod hyn yn gwneud iddynt deimlo'n agored i niwed ac yn effeithio ar eu gallu i gysgu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch yr amseroedd cyfyngedig yr oedd modd defnyddio ffonau symudol, ac achlysuron pan mai dim ond un aelod o staff a oedd ar ddyletswydd dros nos.			nos yn cofnodi nifer y bobl sy'n bresennol, risg glinigol pob unigolyn, amllder arsylwadau, gweithdrefnau brys, a phryd y bydd angen ail aelod o staff neu gymorth un-i-un. Trefnir aelodau ychwanegol o staff pan fydd asesiad risg yn nodi'r angen. Mae arsylwadau dadwenwyno yn orfodol, gan ddechrau bob 30 munud cyn lleihau i un, dwy a phedair awr yn ôl disgresiwn y nyrs, yn seiliedig ar y cyflwyniad a'r risg. Caiff y cleifion eu hysbysu adeg eu		
--	--	--	--	---	--	--

				derbyn a thrwy gydol y driniaeth dadwenwyno. Gallant gloi eu drws, ond cânt wybod bod yn rhaid i'r staff ei ddatgloi er mwyn cynnal arsylwadau, a all achosi aflonyddwch na ellid ei osgoi. Mae'r staff yn ceisio sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl wrth gyflawni gwaith monitro diogel.		
--	--	--	--	--	--	--

5.	Roedd yr adborth gan gleifion yn dangos nad oedd yr amseroedd a ganiateir i'w defnyddio bob amser yn cefnogi cyswllt â sefydliadau allanol, megis banciau neu feddygfeydd teulu, yn ystod oriau gwaith arferol. Yn ogystal, roedd y polisi yn nodi mynychu gwasanaethau eglwysig fel rheswm dros ddefnyddio ffôn symudol, ond nid oedd yn benodol yn cydnabod mynychu gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â ffydd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi ffonau symudol er mwyn sicrhau ei fod yn hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a chysondeb ar draws pob crefydd a chred, yn unol â'i ymrwymadau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.	Ansawdd Profiad y Claf -Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	Mae'r defnydd o ffonau wedi'i drefnu mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cleifion yn parhau i ymgysylltu â'r broses ddadwenwyno a'r driniaeth, gan ganiatáu cyswllt allanol angenrheidiol ar yr un pryd. Mae ffonau fel arfer ar gael amser cinio, yn ystod oriau busnes. Gellir gofyn am ddefnydd ychwanegol er mwyn cysylltu â meddyg teulu, banc, cynghorydd cyfreithiol, perthnasau neu at ddibenion cyswllt hanfodol eraill. Mae defnydd nad yw'n hanfodol yn	Rheolwr Cofrestredig	Adolygiad yn mynd rhagddo; rheolaethau ar waith
----	--	---	---	--	-----------------------------	--

				ystod y rhaglen yn parhau i fod wedi'i gyfyngu. Mae'r polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cofnodi'r hyblygrwydd hwn a'i gymhwyso'n gyson. Bydd y geiriad sy'n ymwneud yn benodol ag eglwysi yn cael ei ddisodli gan eiriad cynhwysol sy'n cwmpasu pob gweithgaredd sy'n ymwneud â ffydd a chred. Bydd y cleifion yn cael gwybod am hyn adeg eu derbyn a bydd y staff yn cael copi o'r polisi diwygiedig.		
--	--	--	--	--	--	--

6.	Mewn ymateb i wybodaeth ddatblygol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai'r asesiadau risg amgylcheddol a'r asesiadau risg cleifion hefyd fod wedi ystyried yn benodol y gallu i gael gafael ar fapiau plastig, gan gynnwys bagiau bin bach, a dylid bod wedi cofnodi mesurau cymesur i leihau'r risg o fygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y gallu i gael gafael ar fapiau plastig, gan gynnwys bagiau bin, yn yr asesiad risg amgylcheddol er mwyn lleihau'r risg o fygu.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol -Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Yn dilyn hysbysiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, tynnwyd bagiau bin o'r ardaloedd anghyfyngedig i gleifion. Cânt eu storio mewn cwpwrdd diogel, a reolir gan staff, a dim ond pan fydd angen bag gwastraff newydd y cânt eu rhoi. Bydd asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg cleifion yn cofnodi'r risg o fygu a'r rheolaethau hyn. Bydd cydymffurfiaeth yn cael ei gwirio yn ystod arolygiadau amgylcheddol arferol ac ar ôl	Rheolwr Cofrestredig	Y gwaith o reoli'r trefniadau storio wedi'i gwblhau; mae'r asesiadau wrthi'n cael eu diweddaru
----	---	--	--	--	-----------------------------	---

				unrhyw ddigwyddiad neu hysbysiad diogelwch perthnasol.		
--	--	--	--	--	--	--

7.	Byddai'r cleifion yn mynegi pryderon ac yn siarad mewn cyfarfodydd cymunedol. Un thema a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y lefelau staffio dros nos, a'r ffaith eu bod yn teimlo nad oeddent yn ddigonol i gynnal diogelwch y cleifion. Rhoddwyd enghraifft lle, pe bai'r unig aelod o'r staff yn ymateb i argyfwng, beth fyddai'n digwydd pe bai ar rywun arall ei angen, neu sut y byddai'n gallu galw am gymorth a pharhau i roi triniaeth adfywio cardiowlmonaidd (CPR) pe bai rhywun yn cael ataliad ar y galon. Roedd ymdeimlad y cleifion o ddiogelwch dan sylw.	Er mwyn cryfhau profiad y cleifion o ddiogelwch, rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried yr adborth ar y trefniadau dros nos, yn enwedig y gallu i ddefnyddio'r ystafelloedd gwely, aflonyddwch a achosir gan gloch y drws, darpariaeth mewn argyfwng ac argaeledd ail aelod o staff, a chofnodi'r asesiad a'r camau a gymerwyd drwy ei brosesau llywodraethu.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol -Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Mae'r trefniadau dros nos wedi cael eu hadolygu. Mae'r ystafelloedd gwely ar gael o 17:00 yn ystod yr wythnos a 12:15 ar benwythnosau, neu'n gynharach pan nodir hynny'n glinigol. Mae'r rhybudd agor drysau yn parhau i fod yn angenrheidiol er mwyn hysbysu'r staff nos pan fydd drws allanol yn agor. Mae'r staff yn ceisio sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl. Bydd yr anghenion staffio dros nos ar gyfer pob claf yn cael eu hasesu o ran risg a'u	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith ac yn barhaus
----	--	---	--	---	-----------------------------	---------------------------------

				dogfennu'n unigol. Os bydd angen ail aelod o staff, bydd rhywun yn cael ei neilltuo i gyflenwi yn ystod y cyfnod gofynnol a chaiff hyn ei gofnodi hyn yn yr asesiad. Bydd yr asesiadau'n ymdrin â digwyddiadau sy'n digwydd ar yr un pryd, cysylltu â'r gwasanaethau brys, adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) gan achubwr unigol, a newidiadau yng nghyflwyniad neu lefel risg unigolyn. Bydd y tîm llywodraeth yn adolygu penderfyniadau.		
--	--	--	--	---	--	--

8.	Trafodwyd sut y dylid cynnal llwybr archwilio ffurfiol i gofnodi pryd roedd y staff wedi darllen a deall newidiadau i bolisiâu, a sut roedd hysbysiadau diogelwch allanol gan gyrff megis yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a Llywodraeth Cymru wedi cael eu hasesu, eu rhoi ar waith a'u monitro	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio i gofnodi pryd roedd y staff wedi adolygu newidiadau i bolisiâu neu hysbysiadau diogelwch perthnasol.	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd			
----	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Rheolwr Cofrestredig **Dyddiad:** 10 Medi 2026